**'DYSGU BYW'N WAHANOL'**

**ADRODDIAD DATBLYGU CYNALIADWY CYNTAF CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU O DAN ADRAN 121(6) DEDDF LLYWODRAETH CYMRU 1998**

## Cyflwyniad

Dyma adroddiad statudol cyntaf Llywodraeth Cynulliad Cymru ar hynt datblygu cynaliadwy, hynny yw datblygiad sy'n diwallu anghenion y presennol heb gyfaddawdu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwy.

Mae gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ddyletswydd o dan adran 121 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 i "wneud cynllun sy'n gosod allan sut mae'n bwriadu, wrth arfer ei swyddogaethau, i hyrwyddo datblygu cynaliadwy"; ac adran 121(6) i "gyhoeddi adroddiad ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol ar sut cafodd y cynigion a nodir yn y cynllun eu rhoi ar waith yn y flwyddyn ariannol honno".

Mae'r adroddiad hwn yn disgrifio'r camau a gymerwyd i gyflawni'r ddyletswydd o lunio cynllun, a'r camau a gymerwyd ym mlwyddyn ariannol 2000-01 i'w roi ar waith.

## Ymgynghori ar Greu Cynllun

Mae adrannau 121(1) (5) (4) o Ddeddf Llywodraeth Cymru yn gofyn i'r Cynulliad lunio a chyhoeddi cynllun ar ôl ymgynghori. Lansiodd y Prif Weinidog bryd hynny, Alun Michael, ymgynghoriad ar Gynllun Datblygu Cynaliadwy Drafft ym mis Ionawr 2000. Gwnaed hyn ar bapur ac yn electronig. Cynhaliwyd Cyfarfodydd Cyhoeddus ym mis Chwefror 2000 gan y pedwar Pwyllgor Rhanbarthol er mwyn clywed barn y cyhoedd. Daeth yr ymgynghoriad i ben ym mis Ebrill 2000. Comisiynwyd dadansoddiad allanol o'r ymatebion, a chafodd y dadansoddiad a'r ymatebion eu rhoi ar y rhyngrwyd.

| Ymatebwyr i'r Ymgynghoriad | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| Awdurdodau Lleol | 29 | 18% |
| Cyrff cyhoeddus eraill | 23 | 14% |
| Busnesau | 13 | 8% |
| Cyrff Amgylcheddol anllywodraethol | 17 | 11% |
| Cyrff anllywodraethol eraill | 3 | 2% |
| Sefydliadau Academaidd | 6 | 4% |
| Cyrff Proffesiynol/Undebau Llafur | 6 | 4% |
| Cyrff cynrychioladol neu sefydliadau ymbarél | 11 | 7% |
| Cyrff cymunedol | 7 | 4% |
| Unigolion | 29 | 18% |
| Elusennau | 7 | 4% |

| | | |
|---|---|---|
| Eraill | 10 | 6% |
| CYFANSWM | 161 | 100% |

Ystyriwyd yr ymatebion i'r ymgynghoriad gan yr Aelodau mewn cyfarfod llawn ym mis Medi 2000. Gosododd y Gweinidog dros yr Amgylchedd y Cynullun Datblygu Cynaliadwy 'Dysgu Byw'n Wahanol' gerbron y Cynulliad ym mis Tachwedd 2000, a chafodd ei dderbyn yn unfrydol gan y Cynulliad mewn cyfarfod llawn ar 16 Tachwedd 2000.

Yn y Cynllun Datblygu Cynaliadwy, mae'r Cynulliad yn ymrwymo i integreiddio datblygu cynaliadwy, dros amser, i bopeth mae'r Cynulliad yn ei wneud. Golyga hyn bod angen i ni:

- adolygu ein polisïau, rhaglenni a chynlluniau grant dros gyfnod o 5 mlynedd i sicrhau eu bod yn cyflawni amcanion datblygu cynaliadwy;
- addasu ein trefniadau a'n meini prawf gwerthuso;
- sicrhau bod ein holl bolisïau, prosiectau, rhaglenni ac ati newydd yn adlewyrchu amcanion datblygu cynaliadwy; ac
- edrych sut mae'r Cynulliad yn gwneud ei waith.

Mae'r Cynllun hefyd yn ein hymrwymo i weithio mewn partneriaeth ag eraill i hyrwyddo datblygu cynaliadwy.

Wrth ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad, cafodd ymgynghoriad arall ei gynnal ar ddangosyddion datblygu cynaliadwy, o fis Gorffennaf tan fis Medi 2000. Arweiniodd hyn at bennu set cychwynnol o ddangosyddion, fel a nodir isod.

**Dechrau rhoi'r Cynllun ar waith**

Unwaith y cafodd y Cynllun Datblygu Cynaliadwy ei greu, dechreuodd Llywodraeth Cynulliad Cymru ei roi ar waith, trwy:

- baratoi Cynllun Gweithredu i Aelodau'r Cynulliad gael ei ystyried ac a gafodd ei gymeradwyo ar 1 Mawrth 2001,; a

- chynnig set cychwynnol o 12 o ddangosyddion datblygu cynaliadwy, a gafodd ei chymeradwyo yn ogystal.

**- Gosod y Seiliau**

Roedd set gyntaf y Cynulliad o ddangosyddion datblygu cynaliadwy yn anghyflawn, ond roedd yn cynnwys Olion Traed Ecolegol fel dangosydd. Credwn mai Cymru yw'r wlad gyntaf yn y byd i fabwysiadu Olion Traed Ecolegol fel dangosydd swyddogol.

Rhoddir gwerthoedd diweddaraf y 12 dangosydd yn y tabl canlynol.

| DANGOSYDD | DISGRIFIAD | CANLYNIAD DIWEDDARAF | BLWYDDYN |
|---|---|---|---|
| **Swyddi*** | Canran y bobl sydd o oed gweithio mewn swyddi | 68.1 y cant | 2001 |
| **Addysg*** | Canran pobl 19 oed â chymhwyster NVQ lefel 2 neu ei gyfatebol | 72 y cant | 2000 |
| **Trosedd*** | Cyfradd y troseddau i bob 100,000 o'r boblogaeth am:<br>(i) Ddwyn car neu o gar<br>(ii) Lladrad o annedd<br>(iii) Trais | 1,486<br>414<br>1,390 | 2000/01<br>2000/01<br>2000/01 |
| **Tai*** | Canran yr anheddau anaddas | 8.5 y cant | 1998 |
| **Newid Hinsawdd*** | Nwyon tŷ gwydr sy'n cael eu gollwng i'r aer:<br>Basged o nwyon tŷ gwydr (miliwn tunnell o garbon a'i gyfatebol) | 12.4 | 1998 |
| **Ansawdd Aer*** | Dyddiau pan fo llygredd aer yn gymhedrol neu'n uchel:<br>Trefol: Caerdydd<br>Abertawe<br>Port Talbot<br>Gwledig: Aston Hill<br>Arberth | 21<br>33<br>75<br>27<br>21 | 2000<br>2000<br>2000<br>2000<br>2000 |
| **Ansawdd Dŵr yr Afonydd*** | Canran yr afonydd o ansawdd da neu gymhedrol:<br>Ansawdd Cemegol<br>Ansawdd Biolegol | 98.6<br>98.3 | 2000<br>2000 |
| **Bywyd Gwyllt*** | Poblogaeth adar gwyllt<br>Dangosydd amgen:<br>Canran y rhywogaethau adar sydd wedi cynyddu'n sylweddol ers 1994 | 36 y cant | 2000 |
| **Gwastraff*** | Gwastraff tŷ a'r cyfanswm sy'n cael ei ailgylchu neu ei droi'n gompost (kg y person y flwyddyn):<br>(i) Cyfanswm gwastraff tŷ<br>(ii) Gwastraff tŷ sy'n cael ei ail-gylchu neu ei droi'n gompost | 479<br>31 | 1999/00<br>1999/00 |
| **Yr Iaith Gymraeg** | Cyfran y bobl sy'n gallu siarad Cymraeg:<br>(i) Pawb 3 oed neu hŷn<br>(ii) Plant 3-14 oed | 19 y cant<br>24 y cant | 1991<br>1991 |
| **Ynni Adnewyddadwy** | Canran y trydan sy'n cael ei gynhyrchu yng Nghymru o ynni adnewyddadwy | 3.2 y cant | 2000 |
| **Olion Traed Ecolegol** | Ôl Troed Ecolegol Cymru mewn unedau arwynebedd y person | 5.25 | 2000 |

* Prif Ddangosyddion y DU

Bydd bwletin ystadegol a manylion pellach am y dangosyddion hyn, ac adroddiad llawn ar Olion Traed Ecolegol Cymru, yn cael eu cyhoeddi ochr yn ochr â'r adroddiad hwn.

**Beth yw Olion Traed Ecolegol?**

Olion traed ecolegol yw'r dull o fesur arwynebedd y tir (a môr) cynhyrchiol sydd ei angen arnom i gynnal ein ffordd o fyw. Yn amlwg, mae angen tir arnom i dyfu bwyd, ond gellir hefyd 'trosi' effeithiau amgylcheddol eraill – defnyddio dŵr ac ynni, nwyon tŷ gwydr, ac ati – yn arwynebedd tir.
Gellir cyfrif Ôl Troed unigolyn, teulu, cwmni, tref, diwydiant, rhanbarth, gwlad neu unrhyw grŵp o wledydd. Amcangyfrif o ôl traed Cymru yw 5.25 hectar y person. Mae hyn yn is na chyfartaledd y DU ac Ewrop, a llawer yn is na ffigurau Gogledd America. Yn anffodus, mae'n uwch na chyfartaledd 'ei chyfran teg o'r byd' o tua 1.9 hectar y person. Petai pawb yn y byd yn byw fel ni, byddai angen 2¾ daear i'n cynnal heb fynd dros yr hyn y gall y byd yn naturiol ei gynnal. Mae angen i ni leihau'r effeithiau amgylcheddol wrth i'n heconomi dyfu.

**- Gweithio gydag eraill**

Mae Datblygu Cynaliadwy yn thema bwysig yn yr Undeb Ewropeaidd, felly rydym wedi gweithio'n agos gyda'r Comisiwn Ewropeaidd a'r rhanbarthau Ewropeaidd, ac wedi cynnig ein profiad o baratoi'r Cynllun i helpu swyddogion y Comisiwn sy'n paratoi Strategaeth Datblygu Cynaliadwy'r Undeb Ewropeaidd.

Paratowyd cais am arian 'Gweithredu Arloesol' Ewropeaidd yn 2001, ac fe'i cyflwynwyd erbyn y dyddiad cau ym mis Mai 2001.

Mae gweithio gyda Llywodraeth y DU a gweinyddiaethau eraill sydd wedi'u datganoli yn ymrwymiad penodol yn y cynllun, ac fe wnaethom ymuno â nhw i sefydlu'r Comisiwn Datblygu Cynaliadwy i weithio ar lefel y DU. Cyfarfu'r Comisiwn am y tro

*Rôl y Comisiwn Datblygu Cynaliadwy yw hyrwyddo datblygu cynaliadwy ym mhob sector yn y DU, adolygu ei hynt, a datblygu consensws ar y camau sydd angen eu cymryd os ydynt am ddatblygu ymhellach.*

*Ei amcanion penodol yw:*

- Adolygu'r modd y caiff datblygu cynaliadwy ei gyflawni ym mhob maes perthnasol yn y DU, a nodi unrhyw brosesau neu bolisïau perthnasol a allai fod yn ei danseilio;
- nodi tueddiadau anghynaliadwy pwysig na fydd yn cael eu gwrth-droi trwy weithredu cyfredol neu arfaethedig, ac argymell camau i wrth-droi'r tueddiadau hynny;
- dwysáu'r ddealltwriaeth o gysyniad datblygu cynaliadwy, cynyddu ymwybyddiaeth o'r materion mae'n eu codi, ac adeiladu arnynt;
- annog ac ysgogi arfer da.

cyntaf ym mis Tachwedd 2000.

**- Rhoi syniadau ar waith**

O dan nawdd y Cynllun Datblygu Cynaliadwy, mae Awdurdod Datblygu Cymru wedi datblygu'i bolisi datblygu cynaliadwy ei hun i lywio'i waith. Fe'i lansiwyd gan Weinidog yr Amgylchedd, Sue Essex, mewn seminar gan y Cynulliad/Canolfan Ewropeaidd Cymru ar ddatblygu cynaliadwy ym Mrwsel ym mis Mawrth 2001.

Mae dogfen bolisi Awdurdod Datblygu Cymru 'Dysgu Gweithio'n Wahanol' yn disgrifio sut bydd y WDA yn ymateb i her datblygu cynaliadwy o ran:

**Economi Gynaliadwy** Gwella perfformiad cynaliadwyedd busnesau yng Nghymru a sicrhau cynaliadwyedd datblygiadau newydd.
**Adeiladu Cymunedau Cynaliadwy** Sicrhau bod datblygiadau newydd yn hygyrch ac yn cwrdd â gofynion y gymuned. Hefyd, helpu adfywio cymunedau a'u hamgylcheddau i wella ansawdd bywyd.
**Rheoli'r Amgylchedd a'i Adnoddau** Sicrhau bod holl ddatblygiadau'r WDA yn eco-gyfeillgar, a lle'n bosib yn creu buddiannau amlwg.
**Creu'r Darlun Cywir** Sicrhau bod gweithrediadau'r WDA yn cwrdd â neu'n rhagori ar y safonau y mae'n eu disgwyl gan ei bartneriaid.
**Cydweithredu a Datblygu Rhyngwladol** Creu cysylltiadau â rhanbarthau eraill i helpu hyrwyddo datblygu cynaliadwy ar raddfa byd-eang.

Rhoddwyd dyletswydd ar y Cynulliad o dan Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 i ystyried diogelu amrywiaeth fiolegol wrth arfer ei swyddogaethau. Mae'r ddyletswydd hon bellach yn sefyll ochr yn ochr â rhwymedigaeth statudol y Cynulliad o ran datblygu cynaliadwy, cyfle cyfartal, hawliau dynol, partneriaeth ac ymgynghori.

## Y Camau Nesaf

Cymeradwywyd y Cynllun Gweithredu Datblygu Cynaliadwy ym mis Mawrth 01, felly cafodd ei roi ar waith yn ystod blwyddyn ariannol 2001-02. Ymdrinir â hyn yn yr ail adroddiad blynyddol.